



**AMSERLEN / CYNLLUN AR GYFER CYFLWYNO TRAETHAWD  
YMCHWIL PE CAECH CHI ESTYNIAD (ÔL-RADD YMCHWIL)**

Wrth wneud cais am estyniad i ddyddiad cau cyflwyno traethawd ymchwil (cyn ac ar ôl viva) trwy'r Ganolfan Geisiadau (<https://apps.bangor.ac.uk/requests/>), mae'n ofynnol i chi gwblhau ac uwchlwytho cynllun / amserlen i'r cyflwyno. **Oni chwblhewch chi'r ffurflen hon yn llawn caiff eich cais am estyniad i ddyddiad cau cyflwyno'r traethawd ymchwil ei wrthod.**

Adran A – i'w llenwi gan y Myfyriwr		
Enw: <b>Jenny Seren</b>		Rhif Adnabod Myfyriwr: <b>500111111</b>
Ysgol: <b>Ysgol Cosmoleg</b>		
Cwrs / Rhaglen Astudio: <b>PhD</b>		
Dyddiad Cyflwyno Presennol (DD/MM/BBBB): <b>30/06/22</b>		
Dyddiad Cyflwyno Diwygiedig Arfaethedig (DD/MM/BBBB): <b>31/12/22</b>		
<b>Rhowch gynllun gwaith manwl gyda manylion y penodau sydd eto i'w cwblhau, manylion y gwaith sydd angen ei wneud ar bob pennod a llinell amser i gwblhau pob pennod. Ni ddylai hynny gynnwys amser i archwilio'r traethawd ymchwil.</b>		
Dyddiad o	Dyddiad hyd at	Gweithgareddau'r Cynllun Gwaith
		Cwblhawyd Penodau 1-3 eisoes (Rhagarweiniad, Adolygiad Llenyddiaeth Cyffredinol, a Methodoleg), a chafwyd yr holl ganlyniadau bellach. Mae gennyf ddrafft bras o Bennod 6 yn seiliedig ar fy nghanlyniadau hefyd.
Ionawr 2022	Mawrth 2022	Gorffen Pennod 4 ar theori (dwy isdran yn weddill i'w hysgrifennu, tua 1000 o eiriau), byddaf yn gwneud un prawf ystadegol sy'n weddill i ddadansoddi'r data (tua 3 diwrnod), ac ysgrifennu Pennod 5 ar astudiaethau empeiraidd amgen (cyhoeddwyd y cynnwys eisoes fel erthygl mewn cyfnodolyn). Cyflwyno'r ddwy bennod i'r Goruchwylwyr
Ebrill 2022	Mai 2022	Gorffen ysgrifennu Pennod 6 (dim ond mis ddylai gymryd, ond mae'n gadael amser dros ben), ei gyflwyno i'r Goruchwylwyr.
Mehefin 2022	Gorffennaf 2022	Adolygiad Blynyddol ac Ysgrifennu Trafodaeth / Casgliad (Pennod 7). Gwirio yn ôl y Rhagarweiniad. Ei gyflwyno i'r Goruchwylwyr.
1 Awst 2022	31 Awst 2022	Diweddarau Penodau 1-3 gan ddilyn nodiadau'r Goruchwylwyr, tra bo'r Goruchwylwyr yn gorffen rhoi adborth ar Benodau 4, 5 a 6.
1 Medi	30 Medi	Diweddarau Penodau 4 a 5 yn sgil yr adborth.
1 Hydref	31 Hydref	Diweddarau Penodau 6 a 7 yn sgil yr adborth. Ailysgrifennu'r Crynodeb.
1 Tachwedd	30 Tachwedd	Chwilio'r llenyddiaeth yn derfynol a diweddarau'r traethawd ymchwil yn unol â hynny. Ei ddarllen ddwywaith i olygu'r prif destun.
1 Rhagfyr	31 Rhagfyr	Gwirio'r cyfeiriadau, fformatio, prawfddarllen y traethawd ymchwil, a pharatoi at ei gyflwyno.
<b>Datganiad</b> <i>Rwy'n cytuno i gydweithio'n llawn â'm goruchwylwyr / goruchwylwyr er mwyn cadw at y cynllun uchod. Oni wnaf i hynny deallaf y gellid gwrthod ceisiadau am estyniadau pellach a gallai beryglu diwedd fy astudiaethau</i>		
Llofnod (Myfyriwr): <b>Jenny Seren</b>		Dyddiad: <b>01/01/2022</b>

**Adran B (i'w llenwi gan y Goruchwylwyr/Goruchwylwyr)**

**Y Goruchwylwyr/Goruchwylwyr i wneud sylwadau ynglŷn â pha mor realistig yw cynllun y**



**myfyriwr, sut y byddan nhw a/neu aelodau eraill y Tîm Goruchwylio'n cydweithio â'r myfyriwr yn ystod cyfnod yr estyniad, ac i bwy y byddant yn adrodd yn rheolaidd am gynnydd y myfyriwr yn ystod cyfnod yr estyniad.**

Darparodd y myfyriwr waith rhagorol hyd yma a llwyddodd i gyrraedd y targedau y cytunwyd arnynt tan y pwynt hwn. Mae'n drueni bod y myfyriwr wedi profi'r fath amgylchiadau personol anodd, a arweiniodd at yr angen am estyniad o 6 mis. Fodd bynnag, ar sail y gwaith a gyflwynwyd imi eisoes, a'r cynllun cwblhau manwl yr ydym wedi cytuno arno, rwy'n hyderus bod gan y myfyriwr bob siawns o gyflwyno traethawd ymchwil o safon eithriadol erbyn y dyddiad cau diwygiedig. Yn ein Hysgol, rydym yn cynnal cyfarfodydd misol o'r staff addysgu. Yn y rheini rhaid inni adrodd i'r Arweinydd Ôl-Radd Ymchwil ynghylch sut mae'r myfyrwyr yn dod yn eu blaenau. Bydd y fyfyrwraig hefyd yn cael adolygiad blynyddol fis Mehefin 2022, a bydd yn cael ei monitro ar ei chynnydd yno hefyd. Fi yw'r goruchwyliwr arweiniol, a byddaf yn parhau i gefnogi'r fyfyrwraig, fel y gwnes i drwy weddill ei PhD, a byddaf yn darllen pob pennod, yn cynnig adborth, ac yn helpu i'w pharatoi at y viva hefyd maes o law. Bydd yr ail oruchwyliwr yn darllen ac yn rhoi adborth ar Bennod 6 a 7, canys dyna ei arbenigeddau, fel y cytunon ni eisoes. Diolch i chi am eich ystyriaeth o'r mater hwn. Dr Dyrys.

Fel Arweinydd Ôl-Radd Ymchwil yr Ysgol, rwy'n hapus i gadarnhau bod y cynllun cwblhau hwn i'w weld yn gadarn ac y gall y Tîm Goruchwylio gyflawni'r dyddiad cau diwygiedig. Caiff ein holl fyfyrwyr PhD eu monitro'n fisol, ac felly bydd gennyf oruchwyliaeth dros unrhyw faterion wrth iddynt godi. - Yr Athro Perffaith

**Enw:** Dr Dyrys, Goruchwyliwr

**Llofnod:** *Dr Dyrys*

**Enw:** Yr Athro Perffaith, Arweinydd Ôl-Radd

**Llofnod:** *Yr Athro Perffaith*